Enid Blyton®

# SAITH SELOG



STORI FER

Arlunwaith Lliw gan Tony Ross

# BRYSIWCH, SAITH SELOG, BRYSIWCH!

Enid Blyton®

# SAITH SELOG

## BRYSIWCH, SAITH SELOG, BRYSIWCH!




Addasiad Cymraeg gan

Manon Steffan Ros

Arlunwaith gan Tony Ross

**Y fersiwn Saesneg**
Hawlfraint y testun © Hodder & Stoughton, 1955
Hawlfraint yr arlunwaith © Hodder & Stoughton, 2014
Cyhoeddwyd y fersiwn hon am y tro cyntaf
gan Hodder & Stoughton yn 2016

Mae llofnod Enid Blyton a'r *Secret Seven* yn nodau masnach sydd
wedi'u cofrestru gan Hodder & Stoughton Cyf

Cyhoeddwyd y testun gyntaf ym Mhrydain Fawr yn ail rifyn
Cylchgrawn Blynyddol Enid Blyton yn 1955. Mae'r stori fer hon
hefyd ar gael yn *The Secret Seven Short Stories Collection* sydd wedi'i
gyhoeddi gan Lyfrau Plant Hodder.

Mae hawliau Enid Blyton a Tony Ross wedi'u cydnabod fel
Awdur a Arlunydd y gwaith hwn.

Mae eu hawliau wedi'u datgan dan Ddeddf Hawlfreintiau,
Dyluniadau a Phatentau 1988.

Mae'r cyfan o'r cymeriadau yn y cyhoeddiad hwn yn ddychmygol ac
mae unrhyw debygrwydd i bobl go iawn, boed yn fyw neu'n farw yn
hollol ddamweiniol.

**Y fersiwn Cymraeg**
Y cyhoeddiad Cymraeg © Atebol Cyfyngedig,
Adeiladau'r Fagwyr,
Llanfihangel Genau'r Glyn,
Aberystwyth,
Ceredigion SY24 5AQ

Cyhoeddwyd gan Atebol Cyfyngedig yn 2016
Addaswyd i'r Gymraeg gan Manon Steffan Ros

Dyluniwyd gan Elgan Griffiths

Golygwyd gan Adran Olygyddol Cyngor Llyfrau Cymru

Cyhoeddwyd gyda chymorth ariannol gan Gyngor Llyfrau Cymru
Cedwir y cyfan o'r hawliau. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r
cyhoeddiad hwn na'i throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd,
electronig neu fecanyddol, gan gynnwys llungopïo, recordio neu drwy gyfrwng
unrhyw system storio ac adfer, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyhoeddwr.

**www.atebol.com**



| | |
|---|---|
| PENNOD 1 | 9 |
| PENNOD 2 | 17 |
| PENNOD 3 | 27 |
| PENNOD 4 | 35 |
| PENNOD 5 | 45 |
| PENNOD 6 | 51 |
| PENNOD 7 | 61 |
| PENNOD 8 | 67 |

# Pennod 1



Roedd y Saith Selog wedi bod am bicnic. Aeth Sgamp gyda nhw, a bu ei gynffon yn chwifio'n llawen drwy'r



prynhawn! Doedd dim byd yn well ganddo na threulio amser gyda'r Saith Selog! Byddai rhywun bob tro'n gwneud ffws ohono, yn rhoi mwythau iddo neu'n sgwrsio ag o.

'Wel, mae'r fasged yn llawer ysgafnach nag oedd hi ar y ffordd yma!' meddai Sioned wrth i'r ffrindiau gerdded adref, a'r fasged

wag yn siglo ar ei braich.

'O, sorri Colin, wyddwn i ddim dy fod di y tu ôl i mi.'

'Gwell i ti roi'r fasged 'na i Sgamp i'w chario,' meddai Colin. 'Dyna'r trydydd tro i ti 'nharo i efo hi!'

'Pa ffordd gerddwn ni adref – drwy'r caeau neu drwy'r dref?' holodd Pedr.

'Trwy'r dref!' atebodd y lleill yn llawn cyffro.





Roedd gan bawb yr un syniad – galw yn y siop hufen iâ. Felly tua'r dref â nhw.

Roedd hi'n ddiwrnod marchnad, ac roedd y strydoedd yn llawn. Rhuthrai pobol i bob cyfeiriad yn cario bagiau a pharseli, yn sgwrsio a chwerthin, a chrwydrai'r ceir yn araf er mwyn osgoi'r dyrfa.

Yn sydyn, gwibiodd dyn i lawr y stryd ar gefn ei



feic. Canai'r gloch fel petai mewn brys mawr, a bu'n rhaid i bobol neidio o'r ffordd. Llamodd Pedr i'r palmant er



mwyn osgoi'r dyn, a syllodd yn ddig ar ei ôl.

'Bron iawn iddo 'nharo i!' ebychodd Pedr. Ond yna, digwyddodd rhywbeth ofnadwy ...



# Pennod 2



**CRASH**!

Roedd y dyn ar y beic wedi taro car, ac wedi syrthio i'r llawr. Sgrechiodd rhywun o'r

dyrfa, a rhuthrodd criw mawr draw at y dyn ar unwaith.

Rhedodd y plant yno hefyd. Gorweddai'r dyn ar ganol y lôn, wedi drysu'n lân, ac roedd ganddo glais mawr ar ei ben a briw gwaedlyd ar ei foch.

Daeth heddwas ato o ganol y dorf.

'Roedd o'n mynd fel y gwynt ar ei feic!' meddai







rhywun. 'Ac yn gweiddi ar bobol i symud o'r ffordd. Welodd o mo'r car nes ei bod hi'n rhy hwyr.'

Ceisiodd y beiciwr siarad, a phlygodd yr heddwas i wrando ar ei lais gwan. 'Mae o'n mwmian y gair "lifer" dro ar ôl tro,' meddai'r heddwas mewn penbleth. 'Ai dyna'i enw? Oes rhywun yn gwybod?'

Erbyn hyn, roedd torf fawr

wedi ymgasglu. 'Hei, i ffwrdd â chi!' gwaeddodd yr heddwas. 'A! Dyma'r meddyg – symudwch, blant, ar unwaith, er mwyn iddo ddod at y claf!'

Crwydrodd y Saith Selog o'r fan gyda gweddill y plant oedd wedi dod i weld beth oedd yn digwydd.

'Fydda i byth yn gwibio mor sydyn ar fy meic,' meddai Bethan. 'Byth bythoedd,



yn enwedig ar ôl gweld y ddamwain yna.'

'Pwy oedd y dyn? Ydach chi'n gwybod?' holodd Pedr.

'Dim syniad,' atebodd Mali.

'Mae ei wyneb o'n gyfarwydd,' meddai Gwion gan grychu'i dalcen. 'Dwi'n siŵr 'mod i'n ei adnabod ...'

'Dw innau'n siŵr 'mod i wedi'i weld o'r blaen yn rhywle

hefyd,' meddai Jac yn feddylgar. 'Ond ble?'

'O, dim ots,' meddai Mali. 'Y peth pwysig rŵan yw bod heddwas a meddyg yn gofalu amdano.'

'Mae gen i deimlad ei fod o'n rhywbeth i'w wneud efo'r rheilffordd,' awgrymodd Gwion. 'Ydi o'n borthor yn yr orsaf?'

'Nac ydi,' atebodd Jac, oedd yn mynd yn aml i gwrdd






â'i dad oddi ar y trên, ac yn adnabod y porthorion i gyd. 'Dydi o ddim yn borthor, nac yn werthwr tocynnau, nac yn orsaf-feistr chwaith. Ac eto, mae gen i deimlad dy fod di'n iawn – *mae* o'n rhywbeth i'w wneud efo'r rheilffordd.'

'O, peidiwch wir,' meddai Mali. 'Dwi eisiau anghofio am y ddamwain! Roedd hi'n **ofnadwy**!'



# PENNOD 3



Wrth grwydro am adref, dechreuodd Pedr a Colin ddadlau am bêl-droed.

Ond torrodd Gwion ar

eu traws. '**Bobol annwyl**,
dwi'n gwybod pwy ydi'r dyn
yna! Roedden ni'n iawn –
mae ganddo gysylltiad â'r
rheilffordd!'

'Ai Lifer ydi ei enw fo?'
gofynnodd Sioned.

'Na,' atebodd Gwion.
'Ond mae lifer yn rhan o'i
waith. Fo ydi'r un sy'n symud
y lifers yn y bocs signalau
wrth i'r trenau ddod i'r orsaf!







Dach chi'n cofio ni'n ei wylio fo yn y bocs signalau, yn symud y lifer er mwyn agor y giatiau mawr, ac yn eu cau nhw wedyn ar ôl i'r trên fynd heibio?'

'Wrth gwrs!' meddai Jac. 'Mr Williams ydi o!'

'Bobol bach, gobeithio bod 'na rywun yna i symud y lifer erbyn i'r trên nesaf gyrraedd!' Stopiodd Pedr yn

stond. 'Mae'n siŵr mai dyna pam roedd ffasiwn frys arno fo! Roedd o eisiau cyrraedd mewn pryd i agor y giatiau!'

'Bydd trên chwarter wedi chwech yn cyrraedd cyn hir!' meddai Colin. 'Trên Dad!'

'Awn ni'n ôl yn sydyn a dweud wrth yr heddwas,' meddai Sioned, gan ddychmygu'r trên yn chwalu'r giatiau.



'Does dim amser,' meddai Colin, gan edrych ar ei oriawr.

Gwnaeth Pedr benderfyniad sydyn. 'Bobol annwyl,' meddai. 'Os nad oes unrhyw un i symud y lifer ar gyfer y trên nesaf, bydd 'na ddamwain! Hyd yn oed os bydd y trên yn aros ar y cledrau, bydd y giatiau'n chwalu'n deilchion.

**Brysiwch** – rhaid i ni redeg at y bocs signalau i weld a oes rhywun yna!'



# Pennod 4




Rhedodd y Saith Selog, a Sgamp, i lawr y lôn, i fyny'r bryn, ac i lawr eto, nes cyrraedd y rheilffordd.

'Dewch, bawb!' galwodd Pedr a'i wynt yn ei ddwrn. 'Bydd y trên yn dod mewn ychydig funudau!'

Pedr oedd y cyntaf i gyrraedd y bocs signalau. Roedd o'n adeilad bach tlws wrth ymyl y groesfan, gyda gardd fechan o'i flaen.

Gwaeddodd Pedr wrth rasio at y drws, 'Helô? Oes 'na rywun gartref? Helô?'





Curodd yn frwd ar y drws a chanu'r gloch, ond ni ddaeth neb at y drws.

Neb o gwbl.

Brysiodd Colin at y ffenest. '**Oes rhywun gartref**?' gwaeddodd. Trodd at ei ffrindiau. 'Mae'r bocs signalau'n wag! Dyna pam roedd Mr Williams ar frys gwyllt. Does 'na neb yma i agor y giatiau cyn





daw'r trên nesaf!'

'A dyna pam roedd o'n gweiddi "Lifer! Lifer!"' meddai Sioned. 'O mam bach, be wnawn ni?'

'Symud y lifer ac agor y giatiau ein hunain, wrth gwrs,' atebodd Pedr, gan geisio peidio â chynhyrfu. Gallai weld fod y lleill yn dechrau cyffroi, a thalai hynny ddim. Roedd



hi'n bwysig bod pawb yn canolbwyntio ac yn helpu, er mwyn darganfod ffordd i mewn i'r bocs signalau cyn gynted â phosib.


Edrychodd Colin o'i gwmpas am rywun a allai eu helpu. Ond doedd neb i'w weld heblaw am un ferch fach, a syllai honno ar y Saith Selog mewn syndod, heb ddweud gair.



'Gwion! Sioned! Dewch efo fi i drio symud un o'r giatiau!' gwaeddodd Pedr. 'Jac, Mali, Bethan a Colin, ewch chi at y llall. Ond yn gyntaf, mae'n rhaid mynd i mewn i'r bocs signalau, ond wn i ddim sut! Ac er mwyn dyn, brysiwch – bydd y trên yma mewn munud!'

'Rhaid i ni wrando

a gwylio'n ofalus iawn,'
gwaeddodd Colin. 'Bydd o'n
dod fel y gwynt tuag atom ni.'





# PENNOD 5



Cyn pen dim, roedd y ffrindiau'n ceisio'u gorau glas i fynd i mewn i'r bocs signalau. Gwthiai Pedr y drws wrth

i'r lleill chwilio dan botiau blodau am allwedd. Mae'n rhaid bod un wedi'i chuddio yn rhywle!

'Dwi'n clywed sŵn y trên!' galwodd Sioned. 'Ac mae'r traciau'n dechrau crynu! Brysiwch, brysiwch!'

Wrth i Colin chwilio wrth y drws, daeth o hyd i allwedd o dan y pot blodau.

'Dyma fo!' galwodd Colin




yn llawn cyffro.

'**Mae'r trên yn dod**!' bloeddiodd Mali. '**Mae'r trên yn dod**! Tyrd i'r bocs signalau, Pedr, **y munud 'ma**!'

Ac yn wir, daeth y trên i'r golwg. Chwibanai a rhuai yn uchel, a phan gododd Pedr ei ben gallai weld y trên yn agosáu.

Erbyn hyn, roedd



Colin wedi agor drws y bocs signalau. Rhuthrodd y Saith Selog i mewn a dechrau symud y lifers. Tynnodd pawb â'u holl nerth. Oedd, roedd y giatiau'n agor! Byddai'r trên yn pasio'n ddiogel!

**Gwaeddodd** Mali eto wrth i'r injan wibio heibio gan greu chwa o wynt cryf. Yna taranodd rhes o gerbydau ar ei ôl gan wneud twrw byddarol.

# Pennod 6



Ymhen munud neu ddau, cyrhaeddodd y trên yr orsaf. Dechreuodd pobol adael y cerbydau, pob un yn

edrych ymlaen at gyrraedd adref ar ôl diwrnod hir yn y gwaith.



Dychmygodd Colin ei dad ar y trên, yn plygu ei



bapur newydd ac yn paratoi i adael ei gerbyd.

'Dwi'n teimlo braidd yn benysgafn,' meddai Bethan yn sydyn, ac eisteddodd wrth ochr y lifer. 'O, bobol bach!'

'Mae'n siŵr mai'r cyffro sydd wedi mynd i dy ben di,' meddai Pedr, a'i galon yn curo'n gyflym. 'Mam bach, mi wnaethon ni'n dda i agor y giatiau mewn pryd.'

Daeth gwaedd sydyn. Trodd pawb i weld yr heddwas ar gefn ei feic, a dynion mewn car crand y tu ôl iddo.

'Hei! Be sy'n digwydd, blant? Ddaru chi lwyddo i agor y giatiau mewn pryd?'

'Do – eiliadau cyn i'r trên gyrraedd,' atebodd Pedr, yn llawn rhyddhad.

'Wel, ar fy ngwir!' meddai'r heddwas, gan gamu





oddi ar ei feic. Llamodd tri dyn o'r car mawr.

'Wnaethoch chithau hefyd ddeall pwy oedd Mr Williams pan soniodd am y lifer?' gofynnodd Pedr.

'Do, wel, mi fedrodd o esbonio yn y diwedd,' atebodd yr heddwas. 'Fe ddois i yma ar fy union – a'r dynion yma yn y car yn fy nilyn. Mam bach, pan welais i'r trên yn taranu



heibio, ro'n i wir yn meddwl bod popeth ar ben! Ro'n i'n gwrando am sŵn y giatiau'n malu – ond na, roedd pob dim yr un fath ag arfer.'

'Sut yn y byd wnaethoch chi, blant, feddwl am symud y lifer?' gofynnodd un o'r dynion eraill.

'Wel, mi wnaethon ni gofio pwy oedd y dyn, a sylweddoli mai fo sy'n agor

y giatiau,' meddai Gwion. 'Ac wedyn cofio am drên chwarter wedi chwech, a gwibio fel y gwynt am y bocs signalau!'





'Cael a chael oedd hi,' esboniodd Jac. 'Whiw! Dwi'n chwysu chwartiau ar ôl rhedeg mor bell!'

'Dwi'n chwilboeth!' ychwanegodd Bethan, gan sychu'r chwys o'i thalcen.

# PENNOD 7



'Pwy ydych chi, blantos?' gofynnodd dyn mawr bochgoch, wrth syllu arnyn nhw. 'Rydych chi'n rhai siort



ora', mae'n amlwg i mi!'

'Ni yw'r Saith Selog,' atebodd Pedr yn falch, gan ddangos ei fathodyn. 'Ffrindiau sy'n barod am unrhyw beth, unrhyw bryd!'

'Wela i,' meddai'r dyn. 'Dwi'n swyddog efo'r cwmni rheilffyrdd, ac rydach chi wedi arbed llawer o ddifrod drwy agor y giatiau yna, yn ogystal ag osgoi damwain gas. Gallai'r

trên fod wedi mynd oddi ar y cledrau.'

'Dwi'n falch iawn na wnaeth o,' meddai Colin. 'Roedd Dad yn teithio ar y trên yna. Dwi'n ysu am gael dweud yr hanes wrtho fo!'

'Wel, cyn i chi fynd, hoffwn i ofyn un gymwynas arall,' meddai'r swyddog, gan roi winc ar y dynion eraill.

'Be?' gofynnodd Pedr,



gan ddychmygu rhyw dasg gyffrous ar gyfer y Saith Selog.

'Rhoi help llaw i mi fwyta llond gwlad o hufen iâ!' chwarddodd y dyn. 'Rydych chi'n edrych mor boeth! Dwi'n siŵr y byddai hufen iâ yn helpu.'

'**O byddai**!' bloeddiodd y ffrindiau. Teimlai Bethan yn llawer gwell erbyn hyn. Roedd

hi'n barod i fwyta tri hufen iâ,
o leiaf!



# Pennod 8



Aeth y dynion i'r bocs signalau a gwthio'r lifers. Caewyd y giatiau er mwyn i gerddwyr a cheir gael mynd

heibio. Dychwelodd y dyn mawr i'w gar gan addo cwrdd â'r plant yn y caffi.

Cyn bo hir roedd pawb yn mwynhau llwythi o hufen iâ.

'Dyma'r hufen iâ mwya blasus i mi ei gael erioed!' meddai Pedr.

'Rwyt ti'n ei haeddu, 'machgen i,' atebodd y swyddog, oedd yn mwynhau





ei hufen iâ yntau. 'Sut yn y byd wnaethoch chi gyrraedd y giatiau mewn pryd? Dim ond ychydig funudau oedd gennych chi – mae'r peth yn anhygoel!'

'Ydi,' cytunodd Pedr yn feddylgar. 'Dwi ddim yn siŵr sut lwyddon ni, ond mi lwyddon ni, a dyna sy'n bwysig.'

Ie, dyna sy'n bwysig,



Saith Selog – y ffrindiau sy'n barod am unrhyw beth, **unrhyw bryd**!

